

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Adroddiad 01-12 i'r Cynulliad o dan Reol
Sefydlog 22.9

Mai 2012



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopiau caled gan:
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2082 1821
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Safonau@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Adroddiad 01-12 i'r Cynulliad o dan Reol
Sefydlog 22.9

Mai 2012



Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Sefydlwyd y Pwyllgor Safonau ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor yw cyflawni'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22. Mae'r rhain yn cynnwys: ymchwilio i gwynion a gyfeirir iddo gan y Comisiynydd Safonau; ystyried unrhyw faterion o egwyddor sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau; sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion; a threfnu'r Gofrestr o Fuddiannau'r Aelodau a chofnodion cyhoeddus perthnasol eraill sy'n ofynnol o dan y Rheolau Sefydlog.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Mick Antoniw (Cadeirydd)
Llafur Cymru
Pontypridd



Llyr Huws Gruffydd
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



Mark Isherwood
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



Kirsty Williams
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Brycheiniog a Sir Faesyfed

Cyflwyniad

1. Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9 a pharagraff 7.12 o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad¹ ("y Weithdrefn"), mewn perthynas â chwyn a wnaed yn erbyn Keith Davies AC.

2. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad wedi'i nodi yn Rheol Sefydlog 22. Yn unol â'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2 rhaid i'r Pwyllgor:

- (i) mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau bod Aelod heb gydymffurfio:
 - (a) â Rheol Sefydlog 2;
 - (b) ag unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad ynglŷn â buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill yr Aelodau;
 - (c) â Rheol Sefydlog 5;
 - (ch) ag unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad ynglŷn â safonau ymddygiad yr Aelodau;
 - (d) ag unrhyw god neu brotocol a wnaed o dan Reol Sefydlog 1.10 ac yn unol ag adran 36(6) o'r Ddeddf;
 - (dd) â Rheol Sefydlog 3; neu
 - (e) â Rheol Sefydlog 4, ymchwilio i'r gŵyn, cyflwyno adroddiad arni ac, os yw'n briodol, agymell camau mewn perthynas â hi;
- (ii) ystyried unrhyw faterion o egwyddor ynglŷn ag ymddygiad yr Aelodau yn gyffredinol;

3. Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion y gŵyn a sut y penderfynodd y Pwyllgor beth oedd ei argymhelliad.

¹ Gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad.

Ystyried y gŵyn

4. Ceir adroddiad y Comisiynydd Safonau ar ei ymchwiliad i'r gŵyn yn Atodiad A i'r adroddiad. Mae'n nodi manylion y gŵyn a chanfyddiadau ymchwiliad ffurfiol y Comisiynydd.

5. Roedd y gŵyn yn nodi methiant honedig i gydymffurfio â pharagraffau 4 (b) a (g) o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, sy'n cynnwys yr egwyddor y dylai Aelodau "bob amser ymddwyn mewn ffordd a fydd yn cynnal a chryfhau ffydd a hyder y cyhoedd yn unplygrwydd y Cynulliad ac osgoi unrhyw ymddygiad a fydd yn dwyn gwarth ar y Cynulliad neu ar ei aelodau'n gyffredinol."

6. Cyfarfu'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ddydd Mawrth 8 Mai 2012 i ystyried adroddiad y Comisiynydd Safonau. Penderfynodd y Pwyllgor gyfarfod yn breifat i ystyried y gŵyn. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod adroddiad y Comisiynydd yn cynnwys digon o wybodaeth i fod yn sail i'w drafodaethau, ac nad oedd yn hanfodol ceisio rhagor o dystiolaeth ysgrifenedig na llafar.

Ystyriaeth y Pwyllgor o'i benderfyniad

7. Yna, ystyriodd y Pwyllgor a oedd yr Aelod wedi methu â chydymffurfio ag un o'r materion a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2(i) a pha gamau, os o gwbl, y dylai gynghori'r Cynulliad i'w cymryd os canfyddir methiant i gydymffurfio.

8. Nododd y Pwyllgor fod yr Aelod dan sylw wedi cydnabod yn llawn fod ei weithredoedd wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad a'i fod wedi cydweithredu'n llawn ag ymchwiliad ffurfiol y Comisiynydd Safonau i'r gŵyn.

9. Nododd y Pwyllgor hefyd fod yr Aelod dan sylw wedi ymddiheuro'n llawn yn ysgrifenedig am yr ymddygiad a arweiniodd at y gŵyn hon, sydd wedi'i chynnwys yn adroddiad y Comisiynydd, a'i fod wedi nodi nad yw am wneud apêl yn erbyn canfyddiadau'r Pwyllgor nac unrhyw sancsiwn a argymhellir yn hyn o beth. Am y rheswm hwn, mae'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad cyn gyted â phosibl, ac o fewn y cyfnod arferol o 10 diwrnod a nodir ym mharagraff 7.12 o'r Weithdrefn y caiff yr Aelod, y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn, ddewis gwneud apêl i'r Llywydd.

10. Cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol â chanfyddiad y Comisiynydd (paragraff 9 o'i adroddiad) fod gweithredoedd yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â pharagraffau 4 (b) a (g) o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, a hynny mewn modd amlwg a difrifol.

11. Mae methiant i gydymffurfio ag 'egwyddor Nolan' o ymddwyn mewn modd sy'n cyfleu unplygrwydd mewn bywyd cyhoeddus gan unrhyw Aelod Cynulliad, yn fater difrifol ym marn y Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Mae enw da Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel sefydliad, a ffydd a hyder y cyhoedd ynddo, yn dibynnu ar unplygrwydd yr Aelodau eu hunain.

Argymhelliad y Pwyllgor - y sancsiynau posibl

12. Mae'r methiant i gydymffurfio yn ymwneud ag ymddygiad personol yn hytrach na safonau ymddygiad penodol sy'n ymwneud â buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill. Dim ond o dan Reol Sefydlog 2.10 mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â Rheol Sefydlog 2: Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau, y gall y Cynulliad arfer y sancsiwn o wahardd Aelod rhag mynychu unrhyw drafodion yn y Cynulliad am gyfnod penodedig a thynnu hawliau a breintiau yn ôl. Felly, y sancsiynau sydd ar gael i'r Pwyllgor o dan baragraff 7.11 o'r Weithdrefn mewn perthynas â'r gŵyn hon yw: y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach; neu y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac y dylid "ceryddu" yr Aelod o dan Reol Sefydlog 22.10.

Argymhelliad

Penderfyniad unfrydol y Pwyllgor yw argymell i'r Cynulliad, yn unol â 7.11(iv) o'r Weithdrefn, y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac y dylid "ceryddu" yr Aelod o dan Reol Sefydlog 22.10.

13. Mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi cyflwyno cynnig (yn unol â Rheol Sefydlog 22.11 a pharagraff 9.1 o'r Weithdrefn) yn galw ar y Cynulliad i gymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor.

14. Wrth argymell y sancsiwn i geryddu, mae'r Pwyllgor yn gobeithio anfon neges glir nad yw achosion o'r fath o fethu â chydymffurfio yn dderbyniol.

15. Mae'r Pwyllgor, fel mater ar wahân, wedi rhoi ystyriaeth i sancsiynau, a hynny fel rhan o'r adolygiad parhaus i Weithdrefnau Safonau'r Cynulliad. Caiff unrhyw argymhellion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog yn hynny o beth, eu dwyn gerbron y Cynulliad i'w hystyried maes o law.

Atodiad A

HOLLOL GYFRINACHOL

Oddi wrth: Gerard Elias QC, Comisiynydd Safonau

At: Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

ADRODDIAD AR YMCHWILIAD FFURFIOL

Cwyn yn erbyn KEITH DAVIES AC

Y Gŵyn

1. Drwy lythyr dyddiedig 25 Ebrill 2012, cefais gŵyn ynglŷn â'r Aelod Cynulliad, Keith Davies ("yr AC"), gan Clerc y Cynulliad Cenedlaethol ("yr Achwynydd"). Yn ôl y Clerc, roedd yn gweithredu o dan adran 9 Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, sy'n nodi:

"Os oes gan y Clerc sail resymol dros amau—

(a) bod ymddygiad Aelod Cynulliad, ar adeg berthnasol, wedi methu â chydymffurfio â gofyniad mewn darpariaeth berthnasol, a

(b) bod yr ymddygiad o dan sylw yn berthnasol i swyddogaethau'r Clerc o dan adran 138 o'r Ddeddf (y Clerc i fod yn brif swyddog cyfrifyddu i'r Comisiwn),

rhaid i'r Clerc fynegi'r sail honno mewn ysgrifen i'r Comisiynydd a rhaid i'r Comisiynydd drin yr ohebiaeth fel cwyn y mae adran 6(1)(a) yn gymwys iddi."

2. Honnai'r gŵyn fod yr AC wedi ymddwyn yn groes i baragraffau 4 (b) a (g) o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad ("y Cod") sy'n nodi:

“Dylai Aelodau’r Cynulliad bob amser ymddwyn mewn ffordd a fydd yn cynnal a chryfhau ffydd a hyder yn unplygrwydd y Cynulliad ac osgoi unrhyw ymddygiad a fydd yn dwyn gwarth ar y Cynulliad neu ar ei aelodau’n gyffredinol.”

a

“Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo a chefnogi’r egwyddorion hyn [rhai Nolan] drwy roi arweiniad a dangos esiampl.”

3. Adolygais y dystiolaeth a oedd ar gael imi ar y pryd a chefais fy argyhoeddi bod y gŵyn yn dderbyniol i’r graddau bod gofynion paragraff 3 (i)-(vi) o’r weithdrefn gymwys, sef Gweithdrefn ar gyfer Delio â Chwynion yn erbyn Aelodau’r Cynulliad (3 Mehefin 2008) (“y Weithdrefn”) wedi’u bodloni. Gan hynny, hysbysais yr AC o hynny ac euthum ati rhag blaen i Ymchwilio’n Ffurfiol.

Ymchwiliad Ffurfiol y Comisiynydd

4. Gofynnais am y canlynol ac fe’u rhoddwyd imi:
 - Gwybodaeth ynghylch archebu ystafelloedd mewn gwestai, yn y gorffennol ac ar hyn o bryd, ar gyfer yr AC drwy’r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau (TCBA) gan gynnwys y ceisiadau drwy e-bost ar gyfer yr archebu sy’n berthnasol;
 - datganiadau wedi’u llofnodi gan y staff perthnasol yn y gwesty ynghylch y digwyddiadau fin nos/yn ystod y nos ar 23/24 Ebrill yn ymwneud â’r AC;
 - datganiad wedi’i lofnodi gan yr AC – fe’i holais hefyd cyn cael datganiad drafft ac ar ôl cael y datganiad hwnnw.

Y Ffeithiau a Ganfuwyd gan y Comisiynydd

5. Dyma’r ffeithiau perthnasol a gadarnhawyd gennyf:

- Mae gan yr AC hawl i adhawlio cost ystafell mewn gwesty (yn amodol ar derfynau perthnasol) pan fo'n rhaid ysgwyddo'r gost mewn cysylltiad â'i ddyletswyddau fel Aelod Cynulliad.
- Mae TCBA yn barod i archebu ystafell mewn sefyllfa o'r fath, a thalu'n uniongyrchol amdani, ar ran Aelod Cynulliad. Mae'r AC (neu ei swyddfa) yn defnyddio'r trefniant hwn yn aml.
- Ar 16 Ebrill 2012, trefnwyd ystafell ar gyfer nos Lun 23 a nos Fawrth 24 Ebrill 2012 yng Ngwesty Dewi Sant, Bae Caerdydd—roedd hynny'n un o 12 o geisiadau o'r fath i archebu lle gan swyddfa'r AC i TCBA. Nid oes cwestiwn yn codi ynghylch priodoldeb trefniant o'r fath.
- Yn ôl y disgwyl cofrestrodd yr AC yn y gwesty ar 23 Ebrill toc ar ôl 7.00 p.m. a chafodd ystafell 408. Wedyn gadawodd y gwesty yn ddiweddarach y noson honno.
- Dychwelodd yr AC i'r gwesty tua 4.45am ar 24 Ebrill gyda menyw ac aeth y ddau i ystafell 408. Erbyn hyn roedd yr AC o dan ddylanwad andwyol alcohol.
- Ymhen ychydig wedyn cysylltodd y fenyw a'r AC â derbynfa'r gwesty i ofyn iddynt anfon 2 botelaid o win i'r ystafell. Wedi rhywfaint o drafod, gwnaethpwyd hyn - awdurdododd yr AC dalu am y gwin drwy ei gerdyn credyd.
- Wedyn, rhwng 05.30 a 08.30am cafodd derbynfa'r gwesty nifer o gwynion oddi wrth ystafelloedd cyfagos ynghylch y sŵn a oedd yn dod o ystafell 408 ac o'i balconi, a hynny'n cynnwys gweiddi a rhegi'n uchel.
- Yr ymateb a gafodd staff y gwesty wrth wneud galwadau ffôn i ystafell 408 ac ymweliadau wyneb yn wyneb i geisio cael gan yr AC a'i gydymaith wneud llai o sŵn ac aflonyddu llai ar breswylwyr eraill y gwesty yn sgîl hynny

oedd cael eu tafodi a'u bygwth, yn enwedig gan y fenyw, ac awgrym gan yr AC nad oedd yn bwriadu talu'r bil.

- Ymadawodd yr AC â'r gwesty tua hanner dydd tra oedd y fenyw, ar ben y grisiau ar y llawr cyntaf, yn gwneud sylwadau niweidiol a rheglyd ynghylch y gwesty. Yn dystion i hyn roedd llawer o westeion y gwesty a oedd yn y lobi ar y pryd.
- Aeth yr AC o'r gwesty ar ei ben ei hun.

Casgliadau

6. Rwyf wedi fy argyhoeddi bod yr ystafell yn y gwesty wedi'i harchebu i'w defnyddio gan yr AC er mwyn ei alluogi i gyflawni ei rôl fel Aelod Cynulliad drannoeth. Roedd ymddygiad yr Aelod yn anghyson â diben o'r fath ac roedd hynny ynddo'i hun yn dwyn gwarth ar y Cynulliad Cenedlaethol.
7. Yn ogystal, bu i'r AC, yr oeddid wedi archebu ystafell drosto fel Aelod Cynulliad, a'i gydymaith pan oedd yn ei gwmni, ymddwyn yn y fath fodd nes dwyn gwarth ar yr Aelodau ac ar y Cynulliad Cenedlaethol.
8. Yn olaf, bu i aelodau staff y gwesty, a oedd yn ymwybodol o safle'r AC a phwy ydoedd, a gwesteion y gwesty yr aflonyddwyd arnynt gan yr AC a'i gydymaith, ac a / neu a sylwodd ar eu hymddygiad, a rhai ohonynt yn ddiamau'n ymwybodol o safle'r AC fel deiliad swydd gyhoeddus, gyfrannu ymhellach at ddwyn gwarth ar Aelodau a'r Cynulliad Cenedlaethol. Bydd y cyhoeddusrwydd yn sgîl hyn wedi cyfrannu mwy byth at y canlyniad hwn.
9. **Gan hynny, rwy'n canfod bod yr Aelod Cynulliad, Keith Davies, wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad drwy**

- **Fethu ag ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n cynnal a chryfhau ffydd a hyder y cyhoedd yn unplygrwydd y Cynulliad a thrwy hynny wedi dwyn gwarth ar y Cynulliad a'i Aelodau, yn groes i baragraff 4 (b) o'r Cod;**
- **Fel deiliad swydd gyhoeddus, methodd â hyrwyddo a chefnogi egwyddorion Nolan drwy roi arweiniad a dangos esiampl, yn groes i baragraff 4(g) o'r Cod**

ac o'r herwydd mae i'w drafod gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad o dan Reol Sefydlog 22.2(i).

Gofynion o dan y Weithdrefn ar gyfer Delio â Chwynion


10. Cadarnhaf fod:

- Copi o'r adroddiad terfynol wedi'i roi i'r AC a'r Achwynydd ac nad oeddent yn dymuno tynnu sylw at anghywirdeb ffeithiol ynddo;
- Dywedodd yr AC, wedi iddo gael ei hysbysu bod ganddo hawl i gyflwyno sylwadau ar lafar i'r Pwyllgor mewn gwrandawriad llafar, nad oedd, ac na fyddai, yn dymuno arfer yr hawl honno;
- Dywedodd yr AC, wedi iddo gael ei hysbysu bod ganddo hawl i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Pwyllgor o fewn amser penodol, mai'r unig sylwadau ysgrifenedig yr oedd yn dymuno i'r Pwyllgor eu hystyried oedd y datganiad wedi'i lofnodi ganddo ef a gyflwynwyd i'r Comisiynydd, dyddiedig 4 Mai 2012, sy'n atodiad i'r Adroddiad hwn;
- Mae'r AC, wedi iddo gael gwybod am bwerau'r Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 22.9, 22.10 ac 22.11, a'i hawl i apelio o dan

adran 8.1 o'r Weithdrefn, yn dymuno ildio'i hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor.

Gwybodaeth Ychwanegol

11. Yn fuan wedi iddo gael y llythyr gan y Comisiynydd i ddweud bod y Comisiynydd wedi cael cwyn a oedd yn dderbyniol, cyfarfu'r AC â'r Comisiynydd a dywedodd ei fod yn bwriadu cyfaddef iddo ymddwyn mewn modd a oedd yn arwain at ddwyn gwarth ar y Cynulliad.
12. Mae'r AC wedi talu am yr ystafell sydd dan sylw a'r holl daliadau ategol ynglŷn â hynny.
13. Mae'r AC wedi ysgrifennu llythyr i ymddiheuro at Reolwyr a staff Gwesty Dewi Sant.



Gerard Elias QC

04.05.2012


Atodiad B

Keith Davies AM

Personal Statement

1. I have read the finding of facts as set out in paragraph 5 of the Formal Investigation Report of the Commissioner and do not take issue with any of them.
2. I acknowledge that the hotel was booked for me as an AM in order for me to carry out my duties but that my conduct was inconsistent with such a purpose.
3. I acknowledge full responsibility for my actions at the St David's Hotel. When I returned to the hotel I was adversely affected by alcohol and the woman accompanied me for the purpose of further indulging in drink. I accept unreservedly that this was not conduct expected from a Member of the National Assembly for Wales.
4. I fully accept that my actions have brought the National Assembly and its Members into disrepute and that my actions have caused considerable embarrassment to the Assembly and to my colleagues.
5. I wish to apologise to all those who were offended or upset by my behaviour and in particular to the management and staff of the hotel – to whom I have sent a personal letter of apology. I give my assurance that this was a singular incident and will not be repeated.
6. I would wish the Committee to know that, whilst it in no way exonerates me from responsibility for my actions, I have ensured that the costs of the reservation, and all ancillary costs relative to the night in question, have been paid by me and thus no costs will be borne by the National Assembly.
7. Further, I wholly regret the pain and discomfort which I have brought upon my family.

8. I have noted what is said in the Commissioner's Report at paragraph 10 in relation to my procedural rights and I confirm his summary of my position in relation to them.

A handwritten signature in black ink that reads "Keith Davies". The signature is written in a cursive style and is positioned above a horizontal line that extends to the right.

Keith Davies

4 May 2012